# Gweithdrefnau Gêm Hot Money




### Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer HOT MONEY (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"HOT MONEY"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1337"**
Pris Manwerthu: **£1 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 4.42 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 10,281,600 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

### Sut i chwarae ac ennill

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys un blwch sydd wedi'i labelu fel 'YOUR NUMBERS' sy'n cynnwys deg motiff '' ("Adran Eich Rhifau") a phedwar patrwm sydd wedi'u labelu fel FLOW 1, FLOW 2, FLOW 3 a FLOW 4 ("FLOW" yn unigol). Mae pob FLOW yn cynnwys tri motiff siâp cylch gyda Symbolau Chwarae y tu mewn iddynt sydd wedi'u cysylltu â llinell liw (mae lliw y llinell yn wahanol i bob FLOW), ac ar ochr dde y motiff siâp cylch olaf mewn FLOW, ceir bocs wedi ei labelu â 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr").

I chwarae, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Rhifau i ddatgelu deg Symbol Chwarae ("Eich Rhifau"). Yna, rhaid i chi grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae hynny ym mhob FLOW sy'n cyfateb i unrhyw un o'r Rhifau rydych wedi'u datgelu o dan yr haen yn Adran Eich Rhifau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os bydd pob un o'r tri Symbol Chwarae mewn FLOW yn cyfateb i unrhyw un o'r Rhifau a ddatgelwyd gennych o dan haen Adran Eich Rhifau. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y FLOW hwnnw.

Gall chwaraewyr ennill hyd at deirgwaith ar Gerdyn Crafu.

### Symbolau Chwarae ar gyfer Adran Eich Rhifau

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| Symbolau Chwarae | 16 | 17 | 18 | 19 | 21 |
| Symbolau Chwarae | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| Symbolau Chwarae | 27 | 28 | 29 | 31 | 32 |
| Symbolau Chwarae | 33 | 34 | 35 | 36 | 37 |

Bydd deg Symbol Chwarae yn ymddangos o dan haen Adran Eich Rhifau. Dim ond y Symbolau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm. Bydd tri Symbol Chwarae yn ymddangos o dan yr haen ym mhob FLOW. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un FLOW â Symbolau Chwarae mewn unrhyw FLOW arall i ennill.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer y FLOWS

| Symbolau Gwobr | £1.00 | £2.00 | £5.00 | £10.00 | £20.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Gwobr | -ONE- | -TWO- | -FIVE | -TEN- | TWNTY |
| Symbolau Gwobr | £40.00 | £100 | £200 | £5,000 | |
| Penawdau Gwobr | FORTY | -HUND | TWHUN | FIVTH | |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr mewn FLOW. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen pob Blwch Gwobr mewn FLOW y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â'r FLOW hwnnw.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £1 | | 970,989 | 11 | +/- 5% |
| £2 | | 285,582 | 36 | +/- 5% |
| £2 | £1 x 2 | 571,296 | 18 | +/- 5% |
| £5 | | 125,687 | 82 | +/- 5% |
| £5 | £1 + (£2 x 2) | 228,500 | 45 | +/- 5% |
| £10 | | 45,684 | 226 | +/- 5% |
| £10 | £5 x 2 | 68,556 | 150 | +/- 5% |
| £20 | | 11,398 | 903 | +/- 5% |
| £20 | £10 x 2 | 11,434 | 900 | +/- 5% |
| £40 | | 614 | 16,746 | +/- 5% |
| £40 | (£10 x 2) + £20 | 2,277 | 4,516 | +/- 5% |
| £40 | £20 x 2 | 1,667 | 6,168 | +/- 5% |
| £100 | | 148 | 69,471 | +/- 8.91% |
| £100 | £20 + (£40 x 2) | 230 | 44,703 | +/- 6.12% |
| £200 | | 78 | 131,816 | +/- 10.80% |
| £5,000 | | 5 | 2,056,320 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 61.42% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £6,315,440 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.


Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.